**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 11 Mawrth 2024**

**Presennol:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Chris James a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar; Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Tai; Cerys Purches-Phillips, Uwch Swyddog Tai- Strategaeth a Monitro; Caitlin Theodorou, Swyddog Ymchwil a Pherfformiad; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol, Ymyrraeth Gynnar; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 11.51am)

1 **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 **Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, Chwarter 2 2023-2024**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant) adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2023/2024. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddiwyd i fesur y canlyniadau ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal a phlant oedd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth oedd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 2 plentyn yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oedd yn, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiadau.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Elizabeth Upcott a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd recriwtio yn parhau i fod yn her, yn benodol o fewn y Tîm Gofal wedi'i Gynllunio. Roedd nifer o ffactorau i gyfrif am y problemau staffio yn chwarter 2, gan gynnwys staff ar wyliau blynyddol a staff yn symud rhwng bod ar gontract gydag un tîm i fod ar gontract gyda thîm arall. Roedd hyn wedi effeithio ar y gallu i gwblhau cynlluniau gofal a chymorth ar amser. Serch hynny, roedd sylw priodol yn cael ei roi i hyn ac roedd y sefyllfa'n cael ei monitro.
- Roedd tair uned breswyl yn cael eu datblygu ar draws y sir a fyddai'n darparu gofal 24 awr ar gyfer rhwng 7 a 9 o blant a phobl ifanc. Yr amcan oedd creu amgylchedd teuluol a chaniatáu i unigolion ddychwelyd i'r sir neu aros yn y sir.
- Roedd nifer o grantiau Llywodraeth Cymru yn cael eu sianelu drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a lle bo hynny'n addas, roedd yr Awdurdod Lleol yn manteisio'n llawn ar unrhyw gyllid a oedd ar gael.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol ac i ofyn am adroddiad ar y ddarpariaeth breswyl fewnol, gan gynnwys gwybodaeth am yr arbedion o ran cost a'r manteision i'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes.

Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth cyfan.

**4 Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2022-2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant) adroddiad ar gyflawniadau Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion a'r cynnydd yn erbyn eu targedau a'u hamcanion y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn 2022-2023. Roedd y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn dod a'r Swyddogion Datblygu Gofalwyr, Cysylltwyr Cymunedol a Swyddog Heneiddio'n Dda at ei gilydd i weithio mewn un tîm oedd yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl a chefnogi aelodau'r gymuned yng Ngheredigion. Diffinnir gofalwr fel 'Unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ymdopi

heb eu cymorth'. Roedd gan Ofalwyr hawl i fywyd y tu hwnt i'w rôl ofalu ac i wneud hynny, roedd angen gwasanaethau effeithiol arnynt i gefnogi'r bobl roeddent yn gofalu amdanynt ac ar eu cyfer nhw fel Gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at "Gymru sy'n Gyfeillgar i Ofalwyr", gan nodi bod Gofalwyr di-dâl o bob oed yn rhan werthfawr o gymdeithas. Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru oedd yn cyfateb i 10.5% o boblogaeth dros 5 oed y wlad. Dangosodd y Cyfrifiad hefyd fod 7,246 o bobl yng Ngheredigion yn rhoi gofal di-dâl ac o'r nifer hwn, roedd 3,664 yn rhoi mwy nag 20 awr o ofal di-dâl yr wythnos. Roedd adroddiad a ysgrifennwyd ar y cyd gan Carers UK a Phrifysgol Sheffield yn dangos bod gofalwyr di-dâl yng Nghymru a Lloegr yn cyfrannu £162 biliwn y flwyddyn i'r economi.

Bu i'r Cynghorydd Alun Williams longyfarch y gwasanaeth am baratoi adroddiad hawdd ei ddarllen a oedd yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i Ofalwyr.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Bu i'r Aelodau ddiolch i bawb a oedd yn ymgymryd â rôl ofalu ar draws y sir ac am eu cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.
- Roedd dwy ran o dair o gyllideb y Cyngor yn cael ei gwario ar Ofal Cymdeithasol ac Addysg. Roedd hyn yn debyg i Awdurdodau Lleol eraill ar hyd a lled y wlad.
- Cytunodd y Tîm i rannu manylion y Cysylltwyr Cymunedol â'r Aelodau Etholedig ac i roi gwybod iddynt am unrhyw ddigwyddiadau galw heibio cymunedol a oedd yn lleol iddyn nhw.
- Rhoddwyd sicrwydd bod y Tîm yn rhan o'r trafodaethau gyda Gwasanaeth Porth Gofal ynglŷn ag ail-ddylunio cyfleoedd o ran seibiant a gofal dydd.
- Roedd y Tîm yn parhau i archwilio ffyrdd o gefnogi gofalwyr i wella eu bywydau y tu hwnt i'w rôl ofalu e.e. ehangu seibiannau i ofalwyr.

CYTUNWYD i dderbyn Adroddiad Blynyddol y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.

Bu i Aelodau'r Pwyllgor longyfarch y Tîm am ei waith caled a'i ymrwymiad.

**5 Y Strategaeth Dai Leol Cynllun Gweithredu**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd) y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth Dai Leol – Tai i Bawb (2023 – 2028). Er mwyn cyflawni'r Strategaeth Dai Leol, roedd y camau gweithredu a'r mesurau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu monitro drwy'r Bartneriaeth Tai Leol a, lle bo'n berthnasol, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Amlygodd y Cynllun Gweithredu yr amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Dai Leol, ynghyd â'r camau gweithredu a'r manylion ynghylch sut roedd yr Awdurdod Lleol yn rhagweld y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Roedd gan bob pwynt gweithredu fesur neu fesurau clir a fyddai'n cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Cydnabuwyd nad oedd modd i'r Tîm Tai gyflawni'r Strategaeth Dai a'r camau gweithredu ar ei ben ei hun ac felly roedd gweithio mewn partneriaeth wedi'i nodi'n glir yn y Cynllun. Rhagwelwyd y byddai'r Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu, ei addasu a'i ddiweddaru'n flynyddol drwy gydol cyfnod y Strategaeth a'r bwriad oedd cyflwyno'r adroddiad cynnydd cyntaf i'r Bartneriaeth Tai Strategol ym mis Ebrill 2024.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O ran y Cynllun Gweithredu, rhoddwyd amserlen fwriadol o 5 mlynedd ar gyfer rhai o'r camau gweithredu, er mwyn rhoi'r cyfle i flaenoriaethu a chydweithio â gwasanaethau a'r asiantaethau sy'n bartneriaid i gyflawni'r camau.
- Esboniwyd bod Fforymau'r Landlordiaid yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn a bod hyn yn bodloni'r angen ar hyn o bryd ond y byddai modd eu cynnal yn fwy aml neu'n llai aml os byddai angen.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.

**6 Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

Eglurodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd) fod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ofyniad statudol ar bob Awdurdod Lleol, o dan Ddeddf Tai 1985, oedd yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu lefel yr angen am dai yn y Sir o dro i dro. Ystyriwyd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Strategaethau Tai Lleol. Roedd disgwyl i Awdurdodau Lleol ailysgrifennu Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd ac adnewyddu'r Asesiad hwnnw o'r Farchnad Dai Leol unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd (rhwng blynyddoedd dau a thri). Ar hyn o bryd roedd Ceredigion yn y cyfnod adnewyddu a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oedd 29 Mawrth 2024.

Defnyddiodd Timau Ymchwil, Tai a Pholisi Chynllunio o fewn Cyngor Sir Ceredigion y teclyn newydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith adnewyddu hwn. Yn anffodus, nid oedd rhai fersiynau o'r teclyn yn gweithio oherwydd camgymeriadau technegol a'r rhagamcanion a oedd yn nodi gostyngiad o ran yr aelwydydd yng Ngheredigion. Roedd hyn felly wedi arwain at oedi o ran paratoi Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i'r teclyn, ac roedd yr Awdurdod Lleol yn awr yn gweithio ar fersiwn 3.2, a oedd wedi darparu'r allbynnau a nodir yn yr adroddiad. Er gwaethaf hyn, nid oedd yr Awdurdod Lleol yn hollol fodlon â'r ffigurau yr oedd y teclyn wedi'u paratoi o ystyried y gwahaniaeth sylweddol rhwng y ffigurau hyn a'r ffigurau a ddarparwyd yn

hanesyddol, yn benodol ynghylch yr angen am dai fforddiadwy a thai marchnad agored.

Ar gyfer yr Asesiad nesaf o’r Farchnad Dai Leol, y bwriad oedd i gomisiynu demograffydd/ymgynghorydd cynllunio i gynhyrchu amrywiaeth o senarios twf poblogaeth a thwf tai ar gyfer Ceredigion. Byddai hyn yn rhoi eglurder pellach o ran opsiynau’r twf tai sydd ar gael, a all fwydo i declyn Llywodraeth Cymru o ran Asesiad o’r Farchnad Dai Leol. Bydd ystyriaeth bellach i hyn a'r costiadau dilynol maes o law a rhan o'r comisiynu fydd rhoi dull methodolegol o weithredu i'r Cyngor ei ddefnyddio'n fewnol yn y tymor hwy, ar gyfer cynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn y blynyddoedd i ddod.

Rhoddodd Caitlin Theodorou, Swyddog Ymchwil a Pherfformiad drosolwg o’r prif benawdau o ran yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol. Dywedwyd bod Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion wedi anfon llythyr at Weinidog Tai Cymru i fynegi pryderon am fethodoleg y teclyn a’r allbynnau. Roedd ymateb ysgrifenedig wedi dod i law yn gynnar ym mis Chwefror. Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn agored i drafodaethau y tro nesaf y byddai hyn oll yn cael ei ailysgrifennu.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd y teclyn yn amcangyfrif mai’r angen mwyaf oedd yr angen am gartrefi un ystafell wely. Roedd y teclyn yn defnyddio data o’r Gofrestr Dai ac o ystyried bod mwy na hanner y bobl a oedd mewn llety brys yn bobl sengl, roedd angen clir am lety 1 ystafell wely yn y trefi; mwy o angen na’r hyn a fu yn y gorffennol.
- Ystyriwyd bod darparu tai ar gyfer y dyfodol yn allweddol. Serch hynny, nodwyd bod y Gofrestr Dai yn ystyried anghenion yn hytrach na dymuniadau pobl ac felly dyna paham mai’r angen am gartrefi un ystafell wely oedd yn cael ei ystyried fel yr angen mwyaf. Gallai fod goblygiadau o ran fforddiadwyedd, megis y dreth ystafell wely, pe byddai’r eiddo yn rhy fawr.
- O ystyried yr oedi o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd, effaith gyfyngedig fyddai’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol yn ei chael. Fodd bynnag, byddai Cynllun Datblygu Strategol neu Gynllun Datblygu Lleol newydd yn golygu y byddai angen ailysgrifennu’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol yn llawn a byddai angen i hynny ddigwydd erbyn Mawrth 2025. Roedd y gwaith diweddaru wedi caniatáu i’r Awdurdod Lleol godi pryderon am fethodoleg y teclyn a’r allbynnau.
- Er y byddai darparu 145 o unedau fforddiadwy y flwyddyn am y 5 mlynedd gyntaf yn mynd i’r afael â’r ôl-groniad a fodolai o ran anghenion tai, byddai angen tai digonol drwyddi draw.

CYTUNWYD i gymeradwyo’r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a’i fabwysiadu.

**7 Cynllun Ailgartrefi Cyflym Ceredigion**

Eglurodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu’r

Cyhoedd) bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ‘Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd’ yn ôl ym mis Tachwedd 2021, oedd yn ymrwymo i wneud digartrefedd yn rhywbeth ‘prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd'. Roedd hyn yn dilyn egwyddorion model Llesiant Gydol Oes i raddau helaeth, ac felly dyfeisiwyd cynllun ailgartrefu cyflym y Gwasanaethau Tai gyda hyn mewn golwg. Roedd Ailgartrefu Cyflym yn ddull o weithredu a gydnabyddir yn rhyngwladol oedd yn sicrhau y gallai unrhyw un oedd yn profi digartrefedd symud i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir.

Nodwyd meysydd ffocws allweddol a fydd yn galluogi’r newid i ddull ailgartrefu cyflym o weithredu. Hefyd, roedd pum blaenoriaeth wedi'u nodi o fewn y Cynllun gyda Chamau Gweithredu wedi'u rhestru i helpu a monitro eu heffeithiolrwydd. O safbwynt ariannol, amcan y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym oedd nodi ffynonellau eraill o gyllid a chyfleoedd i weithio gyda phartneriaid a allai gynorthwyo ag atal a lliniaru digartrefedd a gwella llwybrau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r cynllun a'r blaenoriaethau a nodwyd.

**8 Adroddiad ar Ailddynodir Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu’r Cyhoedd) yr adroddiad ar Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion. Roedd Deddf Tai 2004 Rhan 2 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (TA) o dri llawr neu fwy, pump neu fwy o bobl, oedd yn ffurfio dau neu fwy o aelwydydd. Darparwyd trosolwg o nod y ddeddfwriaeth. Yn ogystal â Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Gorfodol, gall yr Awdurdod Lleol hefyd ddynodi trwyddedu ychwanegol, yn ardal gyfan neu ran o ardal yr Awdurdod, yn seiliedig ar nifer y meddianwyr/cartrefi a lloriau).

Roedd yr Awdurdod Lleol wedi gweithredu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ers 2009, pan gafodd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ei ddynodi am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 March 2014 ar gyfer Ceredigion gyfan. Roedd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol wedi’i ddynodi ddwywaith ar ôl hynny gyda rhai mân newidiadau a byddai’r diweddaraf yn dod i ben ar 14 Ebrill 2024. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos ar ailddynodi’r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol. Cafwyd 17 o ymatebion i’r ymgynghoriad ac roedd 65% o blaid y cynllun. Gofynnwyd i Aelodau’r Pwyllgor ystyried y 3 opsiwn a oedd wedi’u cyflwyno yn yr adroddiad, cyn y byddai’r Cabinet yn rhoi ei sêl bendith.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O safbwynt gweithredol, roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod unrhyw Dai Amlfeddiannaeth newydd neu rai a adnewyddwyd yn cydymffurfio â’r cynllun trwyddedu ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

- Roedd y Cynllun Trwyddedu Gorfodol o ran Tai Amlfeddiannaeth ar gyfer y sir gyfan ac roedd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn canolbwyntio ar ardaloedd lle'r oedd, o bosib, fwy o broblemau.
- Cododd yr Aelodau bryderon am y sbwriel yr oedd rhai o drigolion y Tai Amlfeddiannaeth yn ei adael. Roedd dyletswydd ar bob landlord i gydymffurfio â'r drwydded Tai Amlfeddiannaeth. Anogwyd yr aelodau i gysylltu â CLIC pe byddai'r problemau yn parhau, fel y gallai'r gwasanaeth mwyaf priodol ymchwilio i'r mater.
- Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ystod proses pennu cyllideb 24/25 i beidio â chaniatáu mwy na 3 bag du ar gyfer gwastraff gweddilliol fesul aelwyd breswyl fesul casgliad bob 3 wythnos, codwyd pryderon am ymarferoldeb hyn ac effaith y penderfyniad hwn ar Dai Amlfeddiannaeth.

CYTUNWYD i argymell Opsiwn 1 fel amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet.

**9 Ystyried Rhaglen Waith y Dyfodol**

CYTUNWYD nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Diweddariad am y ddarpariaeth breswyl fewnol i blant a phobl ifanc
- Diweddariad am sefyllfa ariannol y gwasanaethau sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor (Gorffennaf 2024)
- Diweddariad am Gartrefi Gofal Preswyl Tregerddan / Hafan y Waun

**10 Ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw faterion yn codi ohonynt**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024.

Materion sy'n codi: Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:** ________________

**Dyddiad:** __________________